

LLAW AR
Y LLYW

Sandra Morris Jones

Blwyddyn Newydd Dda hwyr i chi gyd. Tybed a oes gennym aelodau sy'n gwneud adduned ar ddechrau'r flwyddyn – colli pwysau, peidio ag ysmegu, mynychu dosbarthiadau cadw'n heini, dysgu crefft neu sgil newydd? Rhaid dweud nad wyf yn addunedu dim byd achos fy mod yn ofni na fyddwn yn parhau â'r hyn y dylwn ei wneud. Dymunaf bob hwyl a phob cydymdeimlad efallai i'r addunedwragedd dewr. Os ydych yn chwilio am syniadau, beth am ymuno â chwsr crefft neu gystadlu yn y rhanbarth neu ym Machynlleth?

Mae'n adeg y flwyddyn pan fyddwn yn edrych o ddirif ar ein ceir a dechrau meddwl am eu newid am fodel sy'n fwy modern a mwy cyflym. Bydd rhai aelodau'n cael car wedi'i ddewis iddynt

gan aelod arall o'r teulu tra bod eraill yn gorfod gwneud y cyfan eu hunain. Teimlaf yn ffodus fy mod yn cael cyngor doeth a threfniadau gofalus gan y garej Peugeot lleol yn Aberystwyth, sef cwmni Anthony. Nid oes pall ar eu gofal ohonof ac yn arbennig yn ystod cyfnodau anodd yn fy mywyd, fel marwolaeth Dewi ac ymladd canser. Teimlaf fy mod yn fwy na chwsmwr cyffredin. Mae'n dda gael y rhain yn yr ardal lle medraf drafod y cyfan yn gymraeg.

Rwyf am lynu wrth y llythyren A wrth drafod fy ail gerbyd. Yn ogystal â char bach coch, rwyf yn berchen ar motorhome bach. Af ynddo er mwyn mynychu penwythnosau gyda Chymdeithas Carafanwyr Cymru ac ein gwyliau cenedlaethol, megis eisteddfodau. Prynais hwn yng Nghaerfyrddin gyda chwmini 3A a chanmol sy rhaid. Ni chefais fy nhrin yn eilradd oherwydd fy mod yn ferch ond yn hytrach dangoswyd amynedd a rhoddwyd cyngor doeth a'r cwbl yn Gymraeg, gan ateb llwyth o gwestiynau ar adegau. Bûm ar gwrs gyrru arbennig a mwynhau'n fawr. Yn anffodus ni fûm allan ynddo ryw lawer y llynedd oherwydd amseriad y

sesiynau chemotherapi, ond gobeithio'n fawr y teithiaf ymhellach eleni.

Mae calendr cyffrous llawn digwyddiadau ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cefnogwch gymaint ag y medrwrch a dewch â ffrindiau'n gwmni. Byddai'n braf cynyddu'r aelodaeth, onid byddai? Ceisiwch wneud rhywbeth newydd, gwahanol eleni er mwyn ehangu gorwelion a mwynhau profiadau newydd. Wnewch chi ddim difaru.

Diolch am eich dymuniadau da yn ystod fy salwch a'm cyfnodau yn yr ysbyty. Rwyf yn gobeithio bod y cyfan drosodd erbyn hyn ond rwyf yn aros am ganlyniadau llawdriniaeth ar yr afu. Croesi bysedd amdani ferched!

Bu'r dathlu'n llwyddiannus iawn ac yn golygu llwyth anferth ychwanegol o waith i'r swyddfa. Diolch arbennig iddynt. Am weddill fy nghyfnod fel llywydd, dymunaf weld sylw'n cael ei roi i adeilad y ganolfan a gwella cyfleusterau yn y swyddfa. Hoffwn weld y rhanbarthau'n cyfrannu at gyflawni'r gwaith hwn drwy roi cyfraniadau a rhoddion ariannol. Rhaid paratoi at y dyfodol a datblygu'r mudiad yn y blynyddoedd a ddaw.

Diolch

Bu 2017 yn flwyddyn brysur a hynod o bwysig yn hanes Merched y Wawr, wrth i ni ddathlu'r Aur. Hoffwn, ar ran y Pwyllgor Treftadaeth ac ar ran y Mudiad, ddiolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i wneud y flwyddyn yn fythgofiadwy.

Diolch, fel erioed i Tegwen a'r Staff am weithio'n galed i sicrhau nawdd gan y Loteri a Sefydliad Laura Ashley a'n galluogodd i gofnodi hanes ein mudiad er budd cenedlaethau'r dyfodol, a sicrhau bod ein dathlu yn deilwng o'r gorffennol.

Cawsom gefnogaeth gan sawl cwmni, a sefydliad, megis Y Llyfrgell Genedlaethol, Casgliad Y Werin, BBC Radio Cymru, S4C, Llywodraeth Cymru, y Cyngor Llyfrau, Gwasg Gomer, Gwasg Y Lolfa, Melin Tregwynt, Pethau Olyf, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cwmni Ifor Williams – diolch o galon iddynt am eu cefnogaeth a'u cydweithio hapus.

Diolch i'r rhai a greodd nwyddau'r dathlu, sef Mari Eluned, Lowri Davies, Rhiannon, Cwmni Grasi, Ruth Jên, Celf Rhiannon, Gwaith Gwydr Delyn. Mae'r gemwaith a'r bagiau i'w gweld ledled Cymru.

Bu Alaw a Branwen, swyddogion treftadeth, yn hynod o brysur dros y flwyddyn yn sganio, cofnodi a throsglwyddo dros 7,000 o eitemau i Gasgliad y Werin. Diolch o galon i'r ddwy am eu cwmni hawddgar, a chydweithio hapus iawn. Cawsom rifyn ychwanegol arbennig o'r Wawr wedi ei olygu gan Catrin Stevens, rhifyn oedd yn cwmpasu'r pum degawd. Diolch o galon, Catrin, a diolch i Grace Birt am y clawr trawiadol. Bu'r pamffled addysgiadol "Penblwydd Pwy?" gan Sian Lewis yn hynod boblogaidd, nid yn unig gan y plant fel oedd y bwriad, ond hefyd gan y dysgwyr. A roedden ni mor falch fod teilyngdod am goron Eisteddfod Genedlaethol Ynys

Môn, coron a wnaed gan John Price ac a roddwyd gan Ferched y Wawr.

Mae'r diolch pennaf i chi'r aelodau, pob un ohonoch, am ymroi i'r gwaith o gasglu atgofion, a mynd ati i ddathlu o ddifri. Mae fy edmygedd i'n fawr iawn o bawb a gyfrannodd i greu y paneli, roedd y gwaith yn hynod gelfydd a phroffesiynol, gan ennyn cymeradwyaeth gan bawb.

Yr hyn a'm trawodd i ymhob digwyddiad oedd eich balchder o'r Mudiad, ac rwyf yn llwyr gredu fod 2017 wedi cynnau brwdfrydedd o'r newydd ymysg ein aelodau.

Awn ymlaen felly yn llawn balchder a hyder i'r dyfodol,

Diolch i BAWB,
Meryl Davies
(Llywydd Pwyllgor Treftadaeth).